Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

11 Mai 2010

Cymorth i ddisgyblion yn gwella medrau rhifedd

Mae llawer o ddisgyblion sy'n syrthio nôl gyda'u medrau rhifedd yn gwella o ganlyniad i raglenni dal-i-fyny a gynigir gan ysgolion, yn ôl arolwg gan Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er bod medrau rhifedd cadarnach gan ddisgyblion ysgolion cynradd na disgyblion ysgolion uwchradd, yn gyffredinol, mae llawer yn ei chael hi'n anodd defnyddio mathemateg sylfaenol a chânt broblemau wrth gyfrifo.

Mae'r adroddiad, 'Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3', yn gwerthuso effeithiolrwydd mentrau a drefnir gan ysgolion i wella medrau rhifedd disgyblion, yn ogystal â nodi arfer orau. Fel rhan o'u harolwg, archwiliodd yr arolygwyr ddata o adroddiadau arolygu ysgolion, asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol, ymatebion holiaduron gan awdurdodau lleol dros y pedair blynedd diwethaf a gwnaed ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd.

Dywedodd Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae ymchwil yn dangos bod medrau rhifedd 53% o oedolion yng Nghymru o dan y lefel a ddisgwylir gan blentyn un ar ddeg oed. Mae hyn yn golygu bod ganddynt anawsterau gyda chanrannau, ffracsiynau a chyfrifon. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i godi safonau mewn rhifedd trwy roi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destun bywyd go iawn er mwyn sicrhau na fyddant yn cael trafferth unwaith y bydd swyddi ganddynt a'u bod yn rheoli eu harian eu hunain."

Gwelodd yr arolygwyr fod safonau rhifedd yn dda mewn ysgolion cynradd gan fod disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio eu medrau y tu allan i'r gwersi mathemateg ac ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon mewn ysgolion

uwchradd yn rhoi digon o bwyslais ar gyfrifo pen ac ysgrifenedig i sicrhau bod medrau rhifedd disgyblion yn parhau i wella ar ôl iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o'r rhaglenni dal-i-fyny mwyaf llwyddiannus a dderbyniodd arweiniad cadarn gan reolwyr hŷn a'u cefnogi gan arbenigedd ac ymrwymiad arweinwyr pwnc. Fodd bynnag er bod bron pawb o'r disgyblion yn gwneud gwell cynnydd na'r disgwyl, mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol wneud mwy i fonitro effeithiolrwydd y rhaglenni hyn.

Mae Estyn yn amlinellu nifer o argymhellion yn yr adroddiad i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys datblygu strategaethau rhifedd a chynllunio a monitro rhaglenni ymyrraeth mewn rhifedd.

-DIWEDD-

Am ragor o wybodaeth, neu gyfweliad cysylltwch â:

Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gellir ei weld yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/cy_thematicreports.asp

- Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o adroddiadau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd 2005-2009; asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3; cyfweliadau ac arsylwadau mewn 11 ysgol gynradd a 10 ysgol uwchradd a holiaduron a lenwyd gan 21 awdurdod lleol.

- Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o:
    - Ysgol Iau Llangennech, Sir Gaerfyrddin

- Cyngor Sir Gâr
- Ysgol Bryngwyn, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Bryn Elian, Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Ysgol Uwchradd Penarlâg, Sir y Fflint
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd
- Ysgol Aberdaugleddau, Sir Benfro
- Ysgol Gyfun Pontarddulais, Abertawe

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol ac o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff yn llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ein hariannu ganddi (dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk